dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

2026

# Cwrs Haf Dwys Aberystwyth

4 week intensive Learn Welsh Summer Course

06/07/2026 - 31/07/2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 03. Y Cwrs | 03. The Course |
| 04. Lefelau'r cyrsiau | 04. Course levels |
| 06. Grwp 7: Cymraeg Proffesiynol / Gloywi Iaith | 06. Group 7: Professional Welsh / Welsh Proficiency |
| 08. Hyd a chost y cwrs | 08. Course length and cost |
| 10. Amserlen y cwrs | 10. Course timetable |
| 11. Gweithgareddau | 11. Activities |
| 12. Llety | 12. Accommodation |
| 13. Cymorth Ariannol | 13. Financial Supoprt |
| 14. Ysgoloriaeth Dan Lynn James | 14. Dan Lynn James Scholarship |
| 15. Cofrestru eich diddordeb | 15. Register your interest |


# Y Cwrs The Course

Dych chi eisiau gwella eich Cymraeg drwy gael eich trochi yn yr iaith am 2 neu 4 wythnos, dros fis Gorffennaf eleni? Mae dosbarthiadau ar bob lefel ar gael.

Mae gennym ddatblygiad cyffrous yn y cwrs eleni! Rydym wedi ymestyn ein darpariaeth ac ychwanegu dosbarth newydd o'r enw Gloywi: Iaith, Llên a Diwylliant. Eleni, felly gallwch fynychu ar lefel hyfedredd am 1, 2 neu 4 wythnos.

Dros y blynyddoedd, mae cannoedd o bobl wedi dod yn siaradwyr rhugl, diolch i'r cwrs arbennig yma. Cewch eich trochi yn yr iaith o fore gwyn tan nos, a gallwch wneud y gorau o'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

Mae'r dosbarthiadau o 9yb - 5yh o ddydd Llun i ddydd Gwener. Os bydd y galw yn ddigonol, cynigir dosbarthiadau ar bob lefel gyda thiwtoriaid ymroddgar a phrofiadol tu hwnt. Cyflwynir Cymraeg safonol â gogwydd de Cymru iddo.

Rhan bwysig o'r cwrs yw'r gweithgareddau fin nos i'ch helpu i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Hefyd, neilltuir cyfnod yn ystod un prynhawn yr wythnos i siaradwyr Cymraeg rhugl ddod i mewn i'r dosbarth, i'ch helpu gydag ymarfer sgwrsio. Mae'r rhain yn rhan greiddiol o'r Cwrs ac yn cael eu trefnu i'ch helpu i ddod i siarad yn fwy hyderus.

Mae Aberystwyth yn dref brifysgol fywiog yng nghalon Cymru, ar arfordir hardd Ceredigion - lle gwych i dreulio eich haf. Noder bod campws y Brifysgol wedi'i leoli ar fryn serth y tu allan i ganol y dref. Rhaid ystyried hyn cyn archebu lle ar y cwrs.

Do you want to learn Welsh this summer? Or perhaps you want to improve your Welsh? You can join us for 2 or 4 weeks to complete half a level or a full level.

We've an exciting development in this year's course! We've extended our provision by adding a new class called Gloywi: Iaith, Llên a Diwylliant. Therefore This year you can attend at the proficiency level for 1, 2 or 4 weeks.

Over the years, hundreds of people have become fluent Welsh speakers thanks to this ground-breaking course. You will be immersed in the Welsh language all day, and you'll be able to make the most of the opportunity to speak Welsh in the classroom and socially.

Classes will be held from 9am-5pm Monday to Friday. Depending on demand, we'll offer classes at all levels taught by highly experienced and dedicated tutors. A standard form of Welsh, with a southern slant, will be taught.

Activities to promote the practical use of Welsh will be held in the evenings. Also a period during one afternoon a week will be set aside for conversation practise with fluent Welsh speakers, who will come in to class to help. These are core elements of learning Welsh and they are woven into the course so that you can gain confidence as a Welsh speaker.

Aberystwyth is a vibrant university town in the heart of Wales, on the beautiful Cardigan coastline - a wonderful place to spend your summer. Please note that the University campus is situated on a steep hill outside the town centre. Please bear this in mind.



# Lefelau Dosbarth Class Levels

Bydd hwn yn gwrs dysgu cyflym, a byddwch yn cwblhau lefel gyfan os byddwch yn ymuno â ni am fis. Byddwch yn cwblhau hanner lefel os byddwch yn mynychu am bythefnos yn unig. £100 yw pris pob cwrs, gyda chostau llety yn ychwanegol.

## Grŵp 1 Mynediad Entry (2 neu 4 wythnos)

Grŵp i ddechreuwyr pur, gyda'r pwyslais ar sgwrsio yn Gymraeg. Byddwch yn dysgu patrymau iaith safonol, a sut i gynnal sgwrs sylfaenol yn yr amser presennol a'r gorffennol.

A group for complete beginners, with the emphasis on conversational Welsh. You will learn basic language patterns and how to hold a basic conversation in both the present and past tenses.

## Grŵp 2 Sylfaen Foundation (2 neu 4 wythnos)

Ar gyfer dysgwyr sydd eisoes wedi cwblhau lefel Mynediad, neu sydd â dealltwriaeth sylfaenol o batrymau iaith - cwrs i gryfhau sgiliau siarad.

For those who have completed Entry level (Mynediad) or have an understanding of basic language patterns - a course to improve your Welsh speaking skills.

## Grŵp 3 Canolradd Intermediate (2 neu 4 wythnos)

Addas os dych chi wedi cwblhau lefelau Mynediad a Sylfaen, neu yn gallu cynnal sgwrs yn Gymraeg am bethau bob dydd. Ar y siarad mae'r pwyslais, ond bydd mwy o ddarllen, ysgrifennu a gwrando yn cael eu cyflwyno.

For those who have completed both the Mynediad & Sylfaen levels, or if you can hold an everyday conversation in Welsh. The emphasis continues to be on conversational Welsh, but some more writing, reading and listening will be introduced.

## Grŵp 4 Uwch 1 (2 neu 4 wythnos)

Dyma'r cam cyntaf ar lefel Uwch - cwrs i godi hyder wrth sgwrsio ac ysgrifennu yn Gymraeg am wahanol destunau mewn mwy o ddyfnder, gan adolygu patrymau a phwyntiau gramadegol. Cyflwynir darnau darllen, gwylio a gwrando sy'n dod o lyfrau neu gylchgronau Cymraeg, ac o raglenni radio a theledu.

# Lefelau Dosbarth Class Levels

This is a fast-paced course, and we will take you through an entire level if you join us for four weeks. You'll complete half a level if you attend for a fortnight. The price of each course is £100, with accommodation costs extra.

## Grŵp 5 Uwch 2 (2 neu 4 wythnos)

Dyma'r cam nesaf ar ôl lefel Uwch 1 i ddysgwyr profiadol allu datblygu eu sgiliau mynegi ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dysgir patrymau newydd a bydd darnau darllen, gwylio a gwrando sy'n dod o lyfrau neu gylchgronau, ac o raglenni radio a theledu. Yn y modd hwn plethir astudio'r iaith â dysgu amdani yn ei chyd-destun diwylliannol a chymdeithasol.

## Grŵp 6 Uwch 3 (2 neu 4 wythnos)

Cwrs i ddysgwyr profiadol ddatblygu eu sgiliau llafar ac ysgrifenedig i safon uchel. Dysgir ffurfiau Cymraeg ffurfiol ynghyd â ffurfiau mwy sgwrsiol - drwy ddarllen, gwylio a gwrando (llyfrau, cylchgronau, rhaglenni radio a theledu). Mae adran Gwybodaeth o Iaith ym mhob uned yn ogystal ag adrannau cefndir sy'n trafod y Gymru gyfoes neu bwnc hanesyddol. Mae'r deunydd yn addas iawn i bobl sydd am gael bod yn hyderus eu bod wedi cyrraedd lefel 'Defnyddio'r Gymraeg Uwch'.

## Grŵp 7 Cymraeg Proffesiynol (1 wythnos)

Cwrs 5 diwrnod ar gyfer siaradwyr rhugl, iddynt wella eu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu yn y Gymraeg a magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith neu'r gymuned.
Ceir ymweliadau gan arbenigwyr ar wahanol agweddau ar gynnwys y cwrs. Bydd gofyn i fyfyrwyr y cwrs hwn ddod â'u gliniadur eu hunain i hwyluso gwneud rhai tasgau ar y cwrs.

## Grŵp 7 Cymraeg Proffesiynol a Gloywi iaith (2 neu 4 wythnos)

Cwrs ar gyfer siaradwyr rhugl iddynt wella eu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu yn y Gymraeg, a magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith neu'r gymuned. Ceir ymweliadau gan arbenigwyr ar wahanol agweddau ar gynnwys y cwrs. Bydd gofyn i fyfyrwyr y cwrs hwn ddod â'u gliniadur eu hunain i hwyluso gwneud rhai tasgau ar y cwrs. Bydd y cwrs yn cynnig cyfle i ennill meistrolaeth dda ar y Gymraeg - ei chyweiriau a'i gramadeg - drwy astudio a mwynhau ystod eang o ddeunydd llenyddol, cyfoes a chlasurol.

# Grŵp 7 Cymraeg Proffesiynol (1 wythnos)

Cwrs 5 diwrnod i siaradwyr Cymraeg rhugl, 6-10 Gorffennaf. A 5 day course (6-10 July ) for fluent Welsh speakers.

Mae'r cwrs Cymraeg Proffesiynol yn gyfle gwych i siaradwyr rhugl wella eu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd proffesiynol yn ogystal â magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith neu yn y gymuned.

Mae gan gwrs o'r math hwn fanteision i weithwyr a chyflogwyr fel ei gilydd:

I'r gweithiwr:

- Cyfle i finiogi sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu ar gyfer gweithle dwyieithog.
- Cyfle i fagu hyder wrth gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

I'r cyflogwr:

- Arfogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhugl yn y gweithle.
- Cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg

Yn ystod y cwrs cewch gyfle i wneud nifer o'r pethau a restrir isod gan flaenoriaethu yn ôl anghenion yr unigolion yn y grŵp:

- Cyfle i finiogi sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu ar gyfer gweithle dwyieithog.
- Dysgu sut i ddefnyddio geiriaduron a chael cymorth iaith ar-lein.
- Ymarfer llunio adroddiadau byr, a chymryd rhan mewn cyfarfodydd.
- Ymarfer tasgau iaith sydd yn berthnasol ar gyfer sefyllfaoedd gwaith, gan gynnwys cyfieithu darnau byrion, crynhoi trafodaeth Saesneg yn y Gymraeg, ac ysgrifennu llythyr neu e-bost yn mynegi safbwynt.
- Edrych ar nodweddion testunau cyffredin yn y gweithle.
- Cyfarfod â siaradwyr gwadd i drafod agwed-dau ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwaith





Datblygiad newydd

# Grŵp 7 Cymraeg Proffesiynol a Gloywi: Iaith, Llen a Diwylliant (2 neu 4 wythnos)

Cwrs newydd sbon am 2 neu 4 wythnos i ddysgwyr profiadol neu siaradwyr iaith gyntaf.
A brand new course for 2 or 4 weeks for experienced learners or first language Welsh speakers.

Mae modd i siaradwyr rhugl a dysgwyr profiadol fynychu am 2 neu 4 wythnos eleni ar y cwrs newydd sbon yma! I ddechrau byddwch yn ymuno â'r Cwrs Cymraeg Proffesiynol am wythnos gyntaf y cwrs. Yna byddwch yn symud ymlaen i wneud y Cwrs Gloywi: Iaith, Llên a Diwylliant, cwrs sydd wedi ei greu yn arbennig ar gyfer ein cwrs haf dwys eleni!

Mae'r cwrs hwn yn gyfle gwych i siaradwyr rhugl a dysgwyr profiadol fireinio eu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu yn y Gymraeg i'r eithaf. Nod y cwrs yw rhoi'r gallu i'r sawl a fydd yn ei ddilyn i ddefnyddio'r iaith yn hyderus ac yn gywir mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Bydd y cwrs yn tywys myfyrwyr i fwynhau a gwerthfawrogi llenyddiaeth Gymraeg gyfoes a chlasurol, mewn amrywiaeth o gyweiriau. Ceir cyfle i wylio a gwrando ar glipiau o raglenni Cymraeg ar y cyfryngau er mwyn trafod amrywiaeth o bynciau ac ehangu geirfa. Gyda'r un nod darllenir erthyglau cyfoes, a hoff ddarnau o ryddiaith a barddoniaeth. Cyflwynir ac eglurir agweddau ar ramadeg y Gymraeg gyda'r ffurfiau i'w gweld yn y deunydd darllen a gwrando.

Gwahoddir siaradwyr gwadd i drafod ystod eang o bynciau, a gosodir tasgau difyr a defnyddiol i'r myfyrwyr roi yr hyn y byddant yn ei ddysgu ar waith yn ymarferol. Rhoddir adborth adeiladol er mwyn i bawb allu codi safon eu gwaith wrth gael sylw unigol.

Yn y Cwrs hwn felly plethir gloywi iaith ag astudio Cymraeg y Gymru gyfoes yng nghyd-destun pynciau ar ei llenyddiaeth, ei chefndir diwylliannol a'i hanes cymdeithasol.





# Beth fydd hyd a chost cwrs i chi?

| | Wythnos 1 06/07/26 - 10/07/26 | Wythnos 2 13/07/26 - 17/07/26 | Wythnos 3 20/07/26 - 24/07/26 | Wythnos 4 27/07/26 - 31/07/26 |
|---|---|---|---|---|
| **Mynediad 1** | £100 | | | |
| **Mynediad 2** | | | £100 | |
| **Mynediad 1 a 2** | £100 | | | |
| **Sylfaen 1** | £100 | | | |
| **Sylfaen 2** | | | £100 | |
| **Sylfaen 1 a 2** | £100 | | | |
| **Canolradd 1** | £100 | | | |
| **Canolradd 2** | | | £100 | |
| **Canolradd 1 a 2** | £100 | | | |
| **Uwch i Rhan 1** | £100 | | | |
| **Uwch i Rhan 2** | | | £100 | |
| **Uwch i Rhan 1 a 2** | £100 | | | |
| **Uwch ii Rhan 1** | £100 | | | |
| **Uwch ii Rhan 2** | | | £100 | |
| **Uwch ii Rhan 1 a 2** | £100 | | | |
| **Uwch iii Rhan 1** | £100 | | | |
| **Uwch iii Rhan 2** | | | £100 | |
| **Uwch iii Rhan 1 a 2** | £100 | | | |
| **Cymraeg Proffesiynol** | £100 | | | |
| **Cymraeg Proffesiynol a Gloywi Rhan 1** | £100 | | | |
| **Gloywi Rhan 2** | | | £100 | |
| **Cymraeg Proffesiynol a Gloywi Rhan 1 a 2** | £100 | | | |

# What's the length and cost of the course?

**Cost y cwrs yma yw £100 i fynychu am 1, 2 neu 4 wythnos.**

Mae ein cyrsiau am ddim i bobl ifanc 16-25 oed, i'r gweithlu addysg sy'n gweithio yng Nghymru, i geiswyr lloches ac i unigolion sy'n derbyn budd-daliadau gwladol (Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal tai, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag Incwm, Credyd Treth Gwaith, Credyd Treth Plant, Credydau Pensiwn, Taliad Annibyniaeth Personol, Grant Hanfodion Ysgol).

**The cost of this course is £100 to attend for 1, 2 or 4 weeks.**

Our courses are free for young people aged 16-25, for education workers working in Wales, for asylum seekers and for individuals receiving state benefits (Universal Credit, Income Support, Housing Benefit, Income-Based Jobseeker's Allowance, Income-related Employment and Support Allowance, Working Tax Credit, Child Tax Credit, Pension Credits, Personal Independence Payment, School Essentials Grant).







"I particularly enjoyed the supportive and uncritical teaching style, giving you the confidence to contribute"

# Amserlen Timetable

| 9am - 5pm<br>Llun i Gwener | Prynhawn<br>dydd Mercher | Tua 7:30yh<br>Bob nos Fawrth<br>a nos Iau |
|---|---|---|
| Dosbarthiadau drwy'r dydd gyda thoriadau am baned a chinio | Gweithgareddau ymarfer sy'n addas ar gyfer y lefel | Gweithgareddau anffurfiol |
| **9am - 5pm<br>Monday to Friday** | **Wednesday<br>afternoons** | **Circa 7:30pm<br>Tuesdays<br>& Thursdays** |
| Classes all day with lunch and coffee breaks | Suitable practice sessions for each level | Informal activities |







# Gweithgareddau Activities

Mae siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth yn hollol allweddol i'ch llwyddiant. Mae'r cwrs felly yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau difyr i'ch cefnogi wrth i chi atgyfnethu'r broses ddysgu a gloywi eich iaith y tu allan i'r dosbarth.

Gweithgareddau eraill fel:
- teithiau cerdded
- sesiynau canu a dawnsio
- sgyrsiau gydag awduron neu selebs lleol
- ffilmiau Cymraeg, gemau iaith a mwy

We know how important it is for you to practise what you have learnt in class. That's why we arrange enjoyable social activities to support your learning.

Other activities typically include:
- guided walks
- dance and music sessions
- An evening with well-known authors or local celebs
- Welsh films, language games and more



**"Roedd Mererid Hopwood yn ysbrydoliaeth llwyr!
Mererid Hopwood was engaging and inspiring!"**









# Llety Accommodation



Mae Aberystwyth yn dref brifysgol fywiog yng nghalon Cymru, ar arfordir hardd Ceredigion - lle gwych i dreulio eich haf.

Dych chi eisiau aros yn Aberystwyth tra byddwch chi ar y cwrs? Mae'n bosib i chi aros mewn neuadd breswyl yn y Brifysgol (en-suite neu heb en-suite). Mae'r neuaddau wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded i gampws Penglais, lle mae ein hystafelloedd dosbarth wedi'u lleoli. Mae archfarchnad fechan hefyd o fewn pellter cerdded. Noder bod gan y campws rai rai llethrau neu elltydd serth.

I archebu llety, ewch i'r siop ar-lein:
https://bookaccommodation.aber.ac.uk
Sicrhewch eich bod yn defnyddio cod hyrwyddo CH2026 a dewis eich dyddiadau i arddangos argaeledd y llety. Rydym wedi neilltuo ystafelloedd â phris gostyngedig ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu'r cwrs.

Aberystwyth is a vibrant university town in the heart of Wales, on the beautiful Cardigan coastline - a wonderful place to spend your summer.

Would you like to stay in Aberystwyth whilst attending the course? It's possible for you to stay at the University's student halls of residence (en-suite or non en-suite). The halls are situated within walking distance of Penglais campus, where our classrooms are located. The halls are also within walking distance of a small supermarket. Please note that the campus has some steep slopes.

To book accommodation, go to the online shop:
https://bookaccommodation.aber.ac.uk
Please ensure that you use promotion code CH2026 and choose your dates to display the accommodation availability. We have reserved rooms at a discounted price for learners attending the course.







# Cymorth Ariannol Financial Support

Eisiau cymorth ariannol with ddysgu Cymraeg? Mae'n bosib cael cymorth ariannol gyda chostau fel gofal plant, cwrslyfrau, costau teithio a pharcio. Nid oes modd hawlio am ffioedd cwrs. Mae cymorth ariannol ar gael gyda chostau llety y Cwrs Haf Dwys.


Bydd rhaid i chi ymgeisio am gymorth ariannol drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gael cymorth gyda llety ar gyfer y cwrs hwn erbyn 24 Ebrill 2026. Yn unol â pholisi'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, bydd angen i chi archebu a thalu'n llawn am y llety. Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais am gymorth ariannol, byddwch yn derbyn ad-daliad yn dilyn y cwrs.

Do you need financial help with learning Welsh? It's possible to receive assistance with costs such as childcare, coursebooks, travel and parking costs. Course fees cannot be claimed for. Financial support is available with accommodation costs for this course.

You must apply to the National Centre for Learning Welsh for support to pay for accommodation for this course by 24 April 2026. In line with the Financial Contingency Fund's policy, you must book and pay fully for the accommodation. If your claim for financial support is successful, you will be reimbursed after attending the course.

I wneud cais ewch yma: Cymorth Ariannol
Dyddiad cau y gronfa ariannol (llety):
**24 Ebrill 2026**

To apply go here: Financial Support
Financial fund's closing date (accommodation): **24 April 2026**



## I fod yn gymwys, mae angen

### Cofrestru | Register

- bod wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gydag un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- be enrolled in a Learning Welsh course with one of theProviders of the National Centre for Learning Welsh

### Bod yn 16+ oed | Be aged 16

- bod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn ar 31 Awst 2025
- be 16 years of age or older on 31 August 2025

## To be eligible you will need to:

### Bod yn breswylydd y DU | Be a UK resident

- bod yn breswylydd sefydlog, cyfreithiol, yn y DG, a hynny ers o leiaf 3 blynedd; neu gwrdd â'r amodau preswylio yn y Canllaw Cymhwysedd Dysgwyr ar gyfer cyllid ôl-16 (manylion yn y polisi ar y wefan)
- be a settled, legal, UK resident for at least 3 years; or meet the conditions of residence in

### Profil yr angen | Prove the need

- cadarnhau y basai'n anodd cael mynediad i'ch astudiaethau heb gymorth gan y Gronfa oherwydd bod ystyriaethau ariannol yn rhwystr, e.e. eich bod chi ar incwm isel.
- confirm that it would be difficult to access your studies without support from the Fund due to financial considerations being a barrier.

# Ysgoloriaeth Dan Lynn James Scholarship

Yn wreiddiol o Henllan, Ceredigion, roedd Dan Lynn James yn ysbrydoliaeth i lawer o ddysgwyr a thiwtoriaid y Gymraeg rhwng y 1950au a'r 1980au, a chyfrannodd yn fawr at foderneiddio'r iaith a'r dulliau addysgu.

Mae Ysgoloriaeth Dan Lynn James yn galluogi'r sawl sy'n ei hennill i fynychu'r cwrs am 4 wythnos yn rhad ac am ddim. Bydd y sawl y dyfernir y wobr iddo/iddi hefyd yn cael llety am ddim (yn neuaddau preswyl Prifysgol Aberystwyth)!

I wneud cais:
https://bit.ly/DanLynnJames2026

Dyddiad cau: 24 Ebrill 2026
Hysbysir ymgeiswyr erbyn 1 Mai 2026

Originally from Henllan, Ceredigion, Dan Lynn James was an inspiration for many Welsh language learners and tutors between the 1950's and 1980's, and contributed greatly to modernizing the language and teaching methods

Our Dan Lynn James Scholarship enables the peson awarded it to attend the course for 4 weeks free of charge.  The award includes free accommodation (at Aberystwyth University halls of residence)!

Apply here:
https://bit.ly/DanLynnJames2026

Closing date: 24 April 2026
Applicants will hear from us by 1 May 2026










# Cofrestru Register

**Mynegwch eich diddordeb drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein yma cyn 22 Mai 2026:**
https://bit.ly/CHD2026

**Ar ôl i chi fynegi eich diddordeb, byddwn yn cysylltu â chi. Mae lle yn gyfyngedig ar bob cwrs, felly nid yw mynegi diddordeb yn sicrhau lle.**

**Ar ôl i ni asesu eich cais, byddwn yn gofyn am daliad o £100 (ar-lein neu dros y ffôn). Mae taliad yn sicrhau eich lle ar y cwrs.**

**Dyddiad cau: 22 Mai 2026**

**MAE'R CWRS YMA YN GALLU LLENWI YN GYFLYM. COFIWCH GOFRESTRU CYN GYNTED Â PHOSiB I OSGOI SIOM.**

Register your interest by completing this online form before 22 May 2026:
https://bit.ly/CHD2026

Once you have registered your interest, we'll be in contact with you. Please note that places are limited on each course, so expressing an interest does not ensure a place.

Once we have assessed your application, we'll ask you to pay £100 (online or over the phone). Payment ensures your place on the course.

Closing date: 22 May 2026

THIS COURSE CAN BECOME FULLY BOOKED QUICKLY. REMEMBER TO REGISTER AS EARLY AS POSSIBLE TO AVOID DISAPPOINTMENT.





1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ceredigion, Powys a Sir Gâr
Ceredigion, Powys & Carmarthenshire

**Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr**

**dysgucymraeg@aber.ac uk**
learnwelsh@aber.ac.uk

**0800 876 6975**

2026